**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**
—
**Local Government and Housing Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddTai@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddTai
0300 200 6565
—
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHousing@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHousing
0300 200 6565

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Llywodraeth Cymru

24 Medi 2021

Annwyl Julie

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir)

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar 22 Medi, trafodwyd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir). Er mwyn galluogi'r Pwyllgor i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ar gydsyniad deddfwriaethol, byddem yn ddiolchgar am ragor o wybodaeth am gynnydd Llywodraeth Cymru ar y rhaglen diwygio cyfraith lesddaliad ehangach.

Mae gwaith diwygio lesddaliad yn faes sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor ac roedd cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio yn rhywbeth a godwyd gyda chi yn ystod y sesiwn graffu ar waith y Gweinidog ar 22 Medi 2021. Er ein bod yn croesawu'r penderfyniad i osod rhent tir ar lesoedd newydd i un hedyn pupur y flwyddyn, sy'n cyfyngu rhenti tir i ddim gwerth ariannol mewn gwirionedd, nodwn nad yw'r Bil yn gymwys i lesoedd presennol. Hefyd, nodwn nad yw'r Bil yn ymdrin â gwendidau eraill yn y system lesoedd, megis taliadau gwasanaeth a materion eraill y mae lesddeiliaid yn eu hwynebu. Felly, byddai o gymorth deall lle y mae'r newidiadau a gyflwynwyd yn Nhŷ'r Arglwyddi yn rhan o'r rhaglen diwygio cyfraith lesddaliad ehangach ac ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i ddeddfu argymhellion Comisiwn y Gyfraith.

Yn y cyfarfod ar 22 Medi, gwnaethoch ddweud y bydd diwygiadau eraill i'r system diwygio lesoedd yn cael eu dwyn gerbron y Senedd. Er mwyn ein helpu i drafod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, byddem yn ddiolchgar pe gallech roi mwy o fanylion am y diwygiadau hyn, gan

gynnwys amserlenni ac a fyddant yn cael eu gwneud drwy ddeddfwriaeth Cymru neu ragor o Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol.

Rydym yn deall y cyflwynwyd gwelliannau ar 20 Gorffennaf i'r Bil sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud pwerau dirprwyedig. Mae Rheol Sefydlog 29.2(iii) yn darparu, pan gyflwynir diwygiadau perthnasol i Fil, y dylai Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol, fel arfer, gael ei osod o fewn pythefnos fan bellaf. Er mwyn i ni gynllunio ein dull o graffu, a wnewch gadarnhau pryd y bydd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol yn cael ei osod?

Byddem yn gwerthfawrogi ymateb erbyn 1 Hydref, fel y gellir ei drafod yn ein cyfarfod cyntaf ar 6 Hydref.

Yn gywir

John

John Griffiths AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.